



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor



Proffil Ardal Weinidogaeth
Bro Madryn

Croeso

Annwyl gyfaill,

Diolch am eich diddordeb yn Ardal Weinidogaeth Bro Madryn.

Mae Bro Madryn yn Ardal Weinidogaeth gyda ymrwymiad clir i genhadaeth a thwf. Mae'r eglwysi yma yn flaenllaw, yn cydweithio, ac wedi eu gwreiddio mewn gweddi, astudio'r Beibl a disgyblaeth. Mae diwylliant cryf o gyfranogiad llewg, wedi ei gefnogi gan offeiriaid ymroddedig, sydd wedi helpu i lunio Ardal Weinidogaeth hyderus ac aeddfed.

Mae Bro Madryn yn sefydlog yn ariannol ac wedi gweithio'n galed i uno ei roddion. Er bod y cronfeydd cyffredinol yn gymharol fach, mae cronfa adeiladau sylweddol wedi'i chyfyngu, ac mae'r Ardal Weinidogaeth wedi cofnodi gorlif ariannol yn ddiweddar, gyda rhan ohono'n cael ei rannu i gefnogi cenhadaeth y tu hwnt i'r cyd-destun lleol.

Mae ymdeimlad cryf o bartneriaeth, yn enwedig gyda'r Ardal Weinidogaeth gyfagos Bro Enlli, ac ymrwymiad ar y cyd i gynnal gweinidogaeth ar draws Pen Llŷn.

Rydym yn chwilio am Arweinydd Ardal Weinidogaeth a fydd yn cynnal ac yn datblygu'r ffocws cenhadol, yn annog disgyblaeth, ac yn arwain gyda chdirdeb, presenoldeb a sensitifrwydd bugeiliol. Mae'r cymunedau a wasanaethir gan Fro Madryn yn naturiol ddwyieithog. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gyfforddus yn gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu sy'n ymrwymedig i ddatblygu ei sgiliau iaith.

Mae Esgobaeth Bangor wedi wynebu cyfnod heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae arwyddion clir o sefydlogrwydd a chyfeiriad newydd. Mae gweinidogaeth ffyddlon wedi parhau drwy'r cyfan, ac mae'r broses o benodi Esgob newydd bellach ar y gweill.

Os ydych yn teimlo mai hwn yw'r cyd-destun iawn i'ch gweinidogaeth, byddwn yn croesawu sgwrs anffurfiol. Mae pobl Bro Madryn yn gweddïo am y person y mae Duw yn ei alw i'w harwain, a byddem yn falch o glywed gennych.

Diolch eto am ddarllen y proffil hwn. Os cewch eich penodi, gallwch fod yn sicr o'n hymrwymiad i'ch cefnogi yn eich gweinidogaeth a'ch arweinyddiaeth.

Gyda'm gweddïau,

Bob bendith,

Archddiacon Robert Townsend

Esgobaeth Bangor

Daearyddiaeth • Iaith • Cymuned

Ble'r ydym ni



Cymunedau gwledig a threfol, wedi'u gwasgaru dros ardal eang

Iaith a Hunaniaeth



Mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant yn rhan annatod o'n ffydd a'n hunaniaeth.

Mae tua 50% o boblogaeth Gogledd-orllewin Cymru yn siarad Cymraeg



162 o adeiladau eglwysig gweithredol

Gweinidogaeth leol wedi'i gwreiddio'n ddwfn



Cadeirlan Deiniol Sant, Bangor

Mam-eglwys yr esgobaeth



Beth sy'n diffinio'r esgobaeth hon

Cymunedau gwledig, arfordirol ac wedi'u gwasgaru Cadarnle'r Gymraeg

Cyd-destunau amrywiol: prifysgol, twristiaeth, ffermio
Yr Eglwys wedi'i gwreiddio ym mywyd y gymuned



Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor



Cyflwyno Bro Madryn

Mae Bro Madryn yn ymestyn ar hyd ochr ogleddol Pen Llŷn, o Lithfaen i Frynicroes. Mae'n ardal wledig arfordirol lle mae cymunedau'n agos at ei gilydd, ac mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd.

Mae'r ardal hefyd yn newid gyda'r tymhorau. Yn ystod yr haf, mae niferoedd ymwelwyr yn cynyddu, ac yn aml mae ein cynulleidfaoedd yn tyfu gyda hynny. Daeth llawer o'r rhai sy'n byw yma heddiw i'r ardal yn wreiddiol fel ymwelwyr.

Fel mewn sawl ardal wledig, mae heriau. Mae cyfleoedd gwaith yn gyfyngedig, gall tai fod yn anodd i deuluoedd ifanc, ac mae'r rhan fwyaf o'n cynulleidfaoedd yn hŷn. Mae hyn yn cael effaith ar gapasiti ac ar gyllid.

Ac eto, mae ymrwymiad cryf yma. Mae pobl yn gofalu am eu heglwysi ac am ei gilydd. Maent yn rhoi o'u hamser, yn cadw'r gwaith i fynd, ac yn parhau'n ffyddlon.

Nefyn yw'r gymuned fwyaf, gyda phoblogaeth o tua 1,200. Mae ganddi ysgol gynradd, llyfrgell, a Chanolfan gymunedol brysur sy'n gartref i amrywiaeth eang o grwpiau a gweithgareddau lleol. Mae'r rhain yn bwyntiau cyswllt pwysig i'r eglwys.

Ar hyd yr arfordir mae Morfa Nefyn ac Edern. Gyda Nefyn, mae poblogaeth gyfunol y cymunedau hyn tua 2,600. Ym Morfa Nefyn, roedd ailagor Eglwys Santes Fair yn 2024 yn gam arwyddocaol, ac mae wedi rhoi hwb gwirioneddol i'r Ardal Weinidogaeth.



Y tu hwnt i'r rhain mae pentrefi a chymunedau llai, gan gynnwys Bryncroes, Llangwnnadl, Llaniestyn, Llandudwen a Phistyll. Ym Motwnnog, er i'r eglwys gau rai blynyddoedd yn ôl, mae'r adeilad bellach wedi'i ailagor fel neuadd eglwys ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, gan gynnwys ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc o'r ysgol uwchradd gyfagos.

Nid un gymuned unigol yw hon, ond rhwydwaith o leoedd. Mae gweinidogaeth yma yn dibynnu ar bresenoldeb, ar deithio, ac ar y gallu i gadw'r cymunedau hyn ynghyd fel un eglwys ar draws yr ardal. Nid un lle yw'r ardal, ond nifer o gymunedau, pob un â'i chymeriad ei hun. Byddai eich gweinidogaeth yn golygu dod i'w hadnabod, a helpu i'w dal ynghyd fel un eglwys.

Darperir llety mewn ficerdy modern pedair ystafell wely ym Morfa Nefyn. Mae o fewn ychydig funudau ar droed i draeth hardd, ac o'r fan honno gellir cerdded yn rhwydd ymlaen i Dafarn y Tŷ Coch ac i orsaf RNLI Porthdinllaen. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn arbennig o hardd yn yr ardal hon, ac i'r rhai sy'n chwarae golff, mae Clwb Golff Nefyn ym Morfa Nefyn.

Addoliad a Chenhadaeth

Ar draws naw eglwys Bro Madryn ceir amrywiaeth o draddodiadau ac arddulliau addoli. Mae rhai cynulleidfaoedd yn seiliedig ar addoliad sacramentaidd, tra bod eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar bregethu neu arddulliau mwy anffurfiol. Cynhelir gwasanaethau yn y Gymraeg, yn y Saesneg, neu'n ddwyieithog, yn ôl gofynion y gymuned.

Nid yw pob eglwys yn gallu cynnal addoliad wythnosol. Mewn rhai adeiladau, yn enwedig y rhai heb wres neu drydan, mae gwasanaethau'n gyfyngedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae hyn yn gofyn am hyblygrwydd ar draws yr Ardal Weinidogaeth.



Ers Covid, mae presenoldeb rheolaidd wedi gostwng tua thraean. Mae'r golled honno'n dal i'w theimlo. Ar yr un pryd, mae arwyddion o obaith. Mae amser gweddi wythnosol dros dyfu'r eglwys wedi dod yn rhan bwysig o fywyd eglwysig, ac mewn rhai eglwysi mae twf yn dechrau dod i'r amlwg eto, o ran niferoedd ac o ran dyfnder ffydd.

Yn ogystal ag addoliad Sul, mae pedwar grŵp astudiaethau Beiblaidd yn cyfarfod yn rheolaidd: dau mewn cartrefi yn Nefyn, un yn Llaniestyn, ac un ar gyfer y rhai sy'n archwilio ffydd. Cynhelir hefyd gyfarfod gweddi wythnosol ar-lein yn y Gymraeg. Caiff y rhain eu harwain gan bobl leyg ac maent yn rhan bwysig o'n bywyd ar y cyd.

IYn Nefyn, mae cysylltiad rheolaidd gyda phlant a theuluoedd. Mae Teulu Twt yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor ac yn cysylltu â thua 10–15 o deuluoedd. Mae Messy Church yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau ysgol ac fel arfer yn croesawu rhwng 30 a 40 o blant gyda’u rhieni neu ofalwyr. Mae cyfarfod misol ar y traeth hefyd yn cael ei ddatblygu yn ystod yr haf.

Mae ysgolion cynradd ar draws yr Ardal Weinidogaeth, gan gynnwys Ysgol Pont y Gof ym Motwnnog, ysgol wirfoddol a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae perthynas dda hefyd gyda’r ysgol uwchradd leol. Mae sesiwn galw heibio wythnosol amser cinio yno, wedi’i redeg gan dîm bach o wirfoddolwyr, yn cynnig cyswllt rheolaidd gyda phobl ifanc.

Mae Caffi Colled yn cyfarfod bob pythefnos yn Nefyn, gan ddarparu lle o gefnogaeth i’r rhai mewn profedigaeth, llawer ohonynt heb gysylltiad rheolaidd â’r eglwys. Mae brechwast dynion misol a brechwast menywod hefyd yn denu pobl o ar draws Llŷn a thu hwnt, gan greu cyfleoedd ar gyfer sgwrs, croeso, a rhannu ffydd.



Fel Ardal Weinidogaeth, rydym yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol megis Parti yn yr Ardd a Sioe Nefyn. Mae’r sioe yn un o’r prif ddigwyddiadau amaethyddol yn yr ardal ac yn denu niferoedd mawr bob blwyddyn. Mae bod yn bresennol yno yn ein galluogi i fod yn weladwy, i ailgysylltu â’r rhai sydd eisoes wedi cael cyswllt â’r eglwys, ac i gwrdd ag eraill mewn ffordd naturiol.

Mae rhai mentrau wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill. Mae gwahodd pobl i’r eglwys yn parhau’n her i lawer. Ar yr un pryd, mae parodrwydd i roi cynnig arni, a dealltwriaeth y daw twf drwy berthynas, cysondeb, a gweddi.

Bywyd yr Eglwysi

Sant Dafydd, Nefyn



Brian Deegan, Geography.org.uk

Nefyn yw prif dref Bro Madryn, gyda phoblogaeth o tua 1,200. Mae ganddi ysgol gynradd, nifer o siopau, a hunaniaeth leol gref, ynghyd â llif cyson o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Mae Eglwys Sant Dafydd yng nghanol y dref. Adeiladwyd hi yn 1903–04, ac mae'n ofod hyblyg, yn addas ar gyfer addoliad ac ar gyfer gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Mae cyfleusterau sylfaenol, sy'n cynnwys cegin fach a thoiled, yn ei gwneud yn bosibl cynnal grwpiau a digwyddiadau, yn enwedig rhai sy'n cynnwys plant a theuluoedd.

Cynhelir addoliad dwyieithog bob bore Sul, gyda gwasanaeth i bob oed ar y Sul cyntaf o'r mis. Fel arfer mae rhwng 15 a 30 yn bresennol, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn ystod cyfnodau gwyliau. Bu twf amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae ymdeimlad y gall hyn barhau.

Defnyddir yr eglwys yn rheolaidd ar gyfer swyddogaethau achlysurol a digwyddiadau cymunedol. Mae'r ysgol gynradd leol yn cynnal gwasanaethau yno ar adegau, ac mae cysylltiadau sefydledig gyda sefydliadau megis y Llang Brydeinig Frenhinol a'r clwb hwylio.

Yn ystod gaeaf 2024–25, cynhaliwyd gwasanaethau Sul dros dro yn Y Ganolfan oherwydd problemau gwresogi yn yr adeilad. Cafodd hyn gefnogaeth y gynulleidfa, gyda’r costau’n cael eu talu drwy roddion. Mae gwaith i wella’r gwresogi yn parhau.

Mae llawer o fywyd yr eglwys yn dibynnu ar wirfoddolwyr, sy’n fodlon darllen, glanhau ac yn cefnogi gweithgareddau drwy’r wythnos.

Mae Eglwys Sant Dafydd yn ganolfan i nifer o weithgareddau rheolaidd. Mae dau grŵp wythnosol “Adnabod y Beibl” yn cyfarfod mewn cartrefi ac yn agored i aelodau newydd.

Mae Teulu Twt yn cyfarfod bob bore Gwener yn ystod y tymor, gan gysylltu â thua 10–15 o deuluoedd. Caiff ei redeg gan aelodau’r gynulleidfa ac mae’n cynnig cyswllt rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr yn y gymuned.

Mae Messy Church yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau ysgol ac fel arfer yn croesawu tua 30 o blant gyda’u rhieni neu ofalwyr. Mae’n gyfle cyson i ymgysylltu â theuluoedd a rhannu’r stori Gristnogol mewn ffordd hygyrch. Cynhelir Llŷn Praise yn fisol, gan gynnig arddull wahanol o addoli a denu pobl o’r ardal ehangach.

Mae gan yr eglwys brofiad o weithgaredd cenhadol, gan gynnwys ymweliadau gan y Fellowship for Parish Evangelism. Mae digwyddiadau fel arddangosfa gelf, a ddaeth â thua 300 o bobl i’r eglwys, wedi dangos bod potensial i estyn allan ymhellach i’r gymuned.

Mae cysylltiadau sefydledig hefyd gyda mudiad traeth Scripture Union a Nefyn Camps, sydd wedi bod yn rhan o fywyd yr ardal ers blynyddoedd.

Mae hon yn eglwys sydd â phresenoldeb amlwg yn y dref, cysylltiadau rheolaidd â theuluoedd, ac arwyddion o dwf. Mae cyfle clir i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd, yn enwedig ym maes gwaith gyda phlant ac wrth wahodd eraill i mewn i fywyd yr eglwys.

Saint Mary, Morfa Nefyn



Adeiladwyd Eglwys Santes Fair, Morfa Nefyn, yn 1870, gyda festri wedi'i hychwanegu yn 1933. Ar ôl cau yn 2013, ailagorwyd yr eglwys ym Mehefin 2024, yn dilyn ymdrech barhaus gan bobl leol i'w chadw mewn defnydd a'i hadfer ar gyfer addoliad.

Yn ystod y blynyddoedd pan oedd ar gau, parhaodd grŵp o wirfoddolwyr lleol i gynnal gwasanaethau tymhorol ac i godi arian i wella'r adeilad. Roedd y gwaith yn cynnwys ailaddurno, gosod system wresogi newydd a gosod lloriau newydd. Mae'r eglwys bellach mewn cyflwr da ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer addoliad a gweithgareddau cymunedol.

Cynhelir gwasanaethau misol bellach, yn bennaf trwy'r Gymraeg, gan adlewyrchu'r gymuned leol, gyda darpariaeth ddwyieithog pan fo angen. Mae'r eglwys yng nghanol y pentref, yn agos at yr ysgol gynradd, ac mae cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau pellach. Mae hefyd mewn ardal boblogaidd ymhlith ymwelwyr, yn enwedig yn ystod yr haf.

Mae hon yn eglwys sydd wedi cael dechrau newydd, gyda chefnogaeth leol gref a photensial clir ar gyfer twf.

Eglwys y Bont, Abersoch



Mae Eglwys y Bont yn cyfarfod yn Abersoch, ac fe'i sefydlwyd ar ôl cau'r eglwys ym Motwnnog yn 2016, pan deimlodd grŵp bach ar ochr ddeheuol y penrhyn alwad i ffurfio cynulleidfa newydd. I ddechrau, cyfarfodydd mewn eiddo gwyliau a gynhaliwyd, ond yn ddiweddarach symudodd y grŵp i gapel Bedyddwyr bach, y maent bellach yn ei rentu.

Daw enw'r eglwys o'i lleoliad a'i phwrpas: bod yn bont o fewn y gymuned. Mae'r addoliad yn naturiol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr. Mae'r gwasanaethau fel arfer yn anffurfiol eu natur, ond defnyddir litwrgi mwy strwythuredig ar adegau, yn enwedig ar gyfer y Cymun.

Mae'r gynulleidfa'n fach ond yn weithgar, gyda ffocws allanol cryf. Mae cysylltiadau da gyda'r capel lleol, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd "Panad a Sgwrs", sydd wedi datblygu'n astudiaeth Feiblaidd Gymraeg.

Mae llawer o fywyd yr eglwys yn cael ei siapio gan ei lleoliad mewn pentref twristiaeth prysur. Cynhelir gwasanaeth Cymun boreol ar y traeth dros y Pasg. Dros y Nadolig, mae'r eglwys yn cymryd rhan mewn dathliadau'r pentref, gan gynnig croeso, gweithgareddau i blant a chyfleoedd i sgwrsio. Ar Nos Galan, mae "Canhwyllau yn y Tywod" yn cynnig lle ar gyfer gweddi a chofio, gan ddenu pobl nad ydynt fel arfer yn mynychu'r eglwys.

Mae'r eglwys hefyd yn ymgysylltu â'r gymuned drwy fentrau anffurfiol, megis ymweld â busnesau lleol yn ystod yr haf, gan adeiladu perthynas gyda'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y pentref. Mae aelodau'n cymryd rhan ar draws yr Ardal Weinidogaeth ehangach, gan gynnwys cefnogi gwaith gyda phlant ym Motwnnog a chymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd.

Mae hon yn gynulleidfa fach ond allblyg, gyda synnwyr clir o'i phwrpas a pharodrwydd i roi cynnig ar ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r gymuned.

Santes Mair, Bryncroes



Mae Santes Mair, Bryncroes, yn eglwys restredig Gradd II* mewn plwyf amaethyddol ar ochr ddeheuol Bro Madryn. Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 16eg ganrif, gyda gwaith adfer yn gynnar yn yr 20fed ganrif, mae wedi gwasanaethu fel man addoli i'r gymuned leol dros genedlaethau.

Saif yr eglwys yn agos at Ffynnon Santes Fair, ac mae dŵr o'r ffynnon yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer bedydd, gan adlewyrchu parhad hir o arferion Cristnogol yn y lle hwn.

Cynhelir gwasanaeth o Gymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob Sul am 11.00, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae tua 12 yn bresennol yn rheolaidd, gydag eraill yn ymuno ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Mae'r gynulleidfa'n ymroddedig ac yn gyson, ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd Bro Madryn, gan gefnogi gwasanaethau a gweithgareddau ar draws yr Ardal Weinidogaeth. Mae hon yn gynulleidfa wledig gadarn, wedi'i gwreiddio mewn addoliad Cymraeg ac ym mywyd y plwyf.

Sant Edern, Edern



Saif Eglwys Sant Edern ym mhentref Edern, ac mae wedi'i chysegru i'r sant Cymreig o'r 6ed ganrif. Mae'n adeilad restredig Gradd II, gyda llawer o'r strwythur presennol yn dyddio o'r 15fed ganrif. Mae'r fynwent gron a'r ffont cynnar yn adlewyrchu ei gwreiddiau Celtaidd a'i hanes hir fel man addoli.

Mae'r gynulleidfa'n fach ond yn ffyddlon, ac mae'r gwasanaethau'n dilyn patrwm traddodiadol. Cynhelir addoliad yn y Saesneg ar y Sul cyntaf o'r mis ac yn y Gymraeg ar y trydydd.

Mae cysylltiad agos gyda Llandudwen. Yn ystod y misoedd pan nad oes gwasanaethau rheolaidd yno, mae aelodau'r gynulleidfa honno'n ymuno ag addoliad yn Edern, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau Saesneg.

Mae hon yn gynulleidfa sefydlog ac ymroddedig, wedi'i gwreiddio mewn traddodiad, lle mae'r weinidogaeth yn cael ei siapio gan gysondeb, gofal, a dealltwriaeth o bwysigrwydd addoli ym mywyd pobl.

Sant Gwynhoedl, Llangwnnadl



Mae Sant Gwynhoedl, Llangwnnadl, yn eglwys restredig Gradd I ar gyrion y pentref, wedi'i chysegru i sant Cymreig o'r 6ed ganrif. Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 14eg neu'r 15fed ganrif, gyda ychwanegiadau diweddarach, ac mae'n sefyll ar safle Cristnogol cynharach sy'n gysylltiedig â Sant Gwynhoedl ei hun.

Roedd yn fan pwysig ar lwybr pererindod Ynys Enlli, ac mae'r cysylltiad hwnnw'n parhau. Mae'r eglwys ar agor bob dydd ac yn derbyn ymwelwyr yn rheolaidd, yn enwedig pererinion. Mae'r adeilad yn nodedig, gyda dyluniad tair cangell prin a bedd Sant Gwynhoedl ger yr allor, gan adlewyrchu ei hanes hir fel man addoli a phererindod.

Mae'r gynulleidfa'n fach, fel arfer rhwng 2 a 6 o bobl, ond yn ffyddlon ac ymroddedig. Mae'r addoliad yn seiliedig ar yr Ewcharist, gyda phatrwm traddodiadol a defnydd o wisgoedd litwrgaidd. Cynhelir y gwasanaethau'n bennaf yn y Saesneg, gyda rhywfaint o Gymraeg mewn emynau.

Mae'r gynulleidfa'n weithgar wrth geisio denu eraill i mewn. Mae digwyddiadau wedi cynnwys dathlu Santes Dwynwen a Burns Night, swper cynhaeaf, a phryd Pasg. Nodir Dydd Iau Dyrchafael gyda thaith gerdded a gweithred addoli yn yr awyr agored, sydd wedi dod â phobl eraill i gysylltiad â'r eglwys.

Mae'n fan lle mae'r weinidogaeth yn cael ei siapio gan gnewyllyn bach o bobl, ymdeimlad cryf o draddodiad, a chyswllt rheolaidd â'r rhai sy'n ymweld.

Sant Tudwen, Llandudwen



Mae Llandudwen yn un o'r safleoedd eglwysig hynaf yng Nghymru, wedi'i sefydlu yn y 5ed ganrif ac yn gysylltiedig â Sant Tudwen, perthynas i Sant Dafydd a ddywedir iddo ymgartrefu yma i ledaenu'r ffydd Gristnogol. Er bod yr adeilad presennol yn adlewyrchu gwaith ailadeiladu diweddarach, mae ei hanes hir yn amlwg yn ei gymeriad a'i leoliad.

Saif yr eglwys bellach ynghanol tir amaethyddol agored, gyda'r hen bentref erbyn hyn wedi gwasgaru i raddau helaeth. Mae'n lle tawel ac anghysbell, wedi'i siapiau gan ei amgylchedd gwledig.

Cynhelir gwasanaethau yma yn y Saesneg ar yr ail a'r pedwerydd Sul o'r mis rhwng y Pasg a Hydref. Y tu allan i'r cyfnod hwn, mae aelodau'r gynulleidfa yn addoli yn bennaf yn Edern, ac mae cysylltiad agos rhwng y ddwy eglwys.

Neuadd yr Eglwys, Botwnnog



Caeodd yr hen eglwys ym Motwnnog yn 2016, ond ers hynny mae wedi ailagor fel neuadd eglwys, gan gydnabod ei lleoliad wrth ymyl unig ysgol uwchradd yr ardal.

Mae'r adeilad bellach yn ofod hyblyg ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, gyda chyfleusterau cegin a thoiled, ac mae hi'r unig neuadd eglwys o fewn yr Ardal Weinidogaeth.

Fe'i defnyddir yn wythnosol ar gyfer sesiwn galw heibio amser cinio i ddisgyblion ac ar gyfer Clwb y Llyfr Da, gan ddarparu cyswllt rheolaidd â phobl ifanc. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer cyfarfodydd achlysurol a digwyddiadau'r Ardal Weinidogaeth.

Mae hon yn ganolfan bwysig ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc ac mae'n cynnig potensial amlwg i ddatblygu'r weinidogaeth honno ymhellach.

Sant Iestyn, Llaniestyn



Mae Llaniestyn yn eglwys restredig Gradd I mewn pentrefle bach tua phum milltir o Nefyn. Mae'r gynulleidfa yn adlewyrchu'r ardal wledig y mae'n ei gwasanaethu, gan gynnwys teuluoedd ffermio, pobl wedi ymddeol, a nifer bach o aelwydydd iau. Mae'r gynulleidfa graidd tua 6–8 o bobl, sy'n ymroddedig ac yn egniol yn eu ffydd. Mae sawl un wedi cynnal bywyd yr eglwys ers blynyddoedd lawer, gan ddarparu parhad a sefydlogrwydd.

Mae gan yr eglwys ofod hyblyg, gyda chadeiriau yn hytrach na meinciau, ynghyd â chegin a thoiled. Yn union gyferbyn mae gardd gymunedol daclus, sy'n cael ei defnyddio yn ystod misoedd yr haf ar gyfer lletygarwch a chynulladau awyr agored. Gall yr adeilad fod yn oer yn y gaeaf, sy'n cyfyngu ar ei ddefnydd ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Mae addoli yn cymryd amrywiaeth o ffurfiau, o wasanaethau mwy traddodiadol gyda emynau a phregethu (yn aml yn ddwyieithog), i gynulladau symlach gyda gweddi, myfyrdod a thrafodaeth. Mae grŵp astudio'r Beibl wythnosol yn cyfarfod yn rheolaidd.

Ceir rhaglen weithgar o ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys te prynhawn yn yr ardd, barbeciw haf, addoli awyr agored, taith gerdded dan arweiniad, a gwasanaethau tymhorol megis Plygain a Gwyl Ganhwyllau. Mae rhai o'r rhain yn denu dros 30 o bobl ac yn rhoi cyfleoedd i ymgysylltu ag eraill yn yr ardal.

Mae'r eglwys yn gweithio'n agos gydag eraill ar draws Bro Madryn ac yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad hwnnw o fywyd a chefnogaeth ar y cyd. Mae hon yn gynulleidfa fach ond gweithgar, gyda pharodrwydd i roi cynnig ar syniadau newydd a thyfu'r gynulleidfa.

Sant Beuno, Pistyll



Grassbots Groundswell, Wikipedia

Eglwys restredig Gradd I ar gyrion y pentref yw Sant Beuno, Pistyll, sy'n cael ei goleuo'n unig gan olau naturiol neu gan gannwyllau. Mae ganddi awyrgylch tawel a gweddïgar, ac mae'n leoliad pwysig ar Lwybr Pererinion Gogledd Cymru.

Mae gan yr eglwys wreiddiau Celtaidd cryf. Mae'r fynwent gylchol a'r seiliau cynnar yn ei chysylltu â Sant Beuno, sant a chenhadwr Cymreig o'r 7fed ganrif. Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 12fed ganrif, gyda llawer o'r hyn sy'n weddill yn dod o'r 15fed ganrif. Mae pererinion yn dal i ymweld yn rheolaidd, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer gweddi, sgwrsio, ac weithiau addoli. Mae'r eglwys hefyd yn lle poblogaidd ar gyfer priodasau.

Cynhelir addoliad yma unwaith y mis rhwng y Pasg a mis Medi, fel arfer yn y prynhawn. Mae'r gynulleidfa reolaidd yn fach, yn aml un neu ddau o bobl leol, ond mae presenoldeb yn cynyddu'n sylweddol pan fydd ymwelwyr yn bresennol. Mae rhai gwasanaethau yn denu cynulleidfaoedd llawer mwy. Mae'r cymun Noswyl Nadolig yng ngolau canhwylau yn llenwi'r eglwys, ac mae gwasanaeth Gŵyl Awst (Lammas) ddechrau mis Awst yn parhau i fod yn foment bwysig yn y flwyddyn, gan nodi dechrau'r cynhaeaf ac yn adlewyrchu bywyd amaethyddol yr ardal. Yng nghyfnodau'r Nadolig, y Pasg a Gŵyl Awst, mae llawr yr eglwys yn draddodiadol wedi'i orchuddio â rhysgl a pherlysiau, arfer syml sy'n cysylltu addoli â'r tymhorau a'r tir.

Mae hon yn fan lle mae'r weinidogaeth yn cael ei siapio gan groeso, presenoldeb, a'r cyfle i ymgysylltu â'r rhai sy'n mynd heibio yn ogystal â'r rhai sy'n byw'n lleol.

Diddordeb?

Dyma Ardal Weinidogaeth sydd â llawer o botensial. Mae sylfaen gadarn i adeiladu arni: gweddi, lleygwyr ymroddedig, patrymau addoli sefydledig, a pharodrydd i roi cynnig ar bethau newydd.

Os ydych yn chwilio am le i weithio gydag eraill, i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yma, a chymryd y camau nesaf mewn cenhadaeth a thwf, byddem yn falch o glywed gennych.

Y Broses Benodi

Anfonwch eich CV a llythyr cais drwy e-bost at:

roberttownsend@churchinwales.org.uk

Dylai'r CV gynnwys cymwysterau a hanes gwaith. Dylai'r llythyr (dim mwy na 2 dudalen A4) egluro eich diddordeb a'ch profiad.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

Am fwy o wybodaeth

Archdeacon Robert Townsend

07789 940049

roberttownsend@churchinwales.org.uk



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

bangor.eglwysyngnghymru.org.uk